***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 3230

# Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003

**Ffurflen flynyddol**

**5.**—(1) Ym mhob blwyddyn ysgol rhaid i berchennog ysgol gofrestredig gyflwyno i'r awdurdod cofrestru ffurflen flynyddol ar gyfer yr ysgol honno cyn pen mis ar ôl i'r awdurdod cofrestru ofyn amdani.

(2) Rhaid i bob ffurflen flynyddol —

(a) cael ei darparu yn ysgrifenedig;

(b) bod wedi'i llenwi hyd at y dyddiad a bennir gan yr awdurdod cofrestru;

(c) cynnwys yr wybodaeth a bennir yn Rhan 4 o'r Atodlen; ac

(ch) cynnwys tystysgrif wedi'i llofnodi gan y perchennog, neu gan berson a awdurdodwyd ganddo i roi'r dystysgrif ar ei ran, bod y datganiadau a wnaed yn y ffurflen flynyddol yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred.